# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd H E Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Eric Robers a S Williams |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd (JHJ),<br>Uwch Swyddog Datbygu AD (MW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd G.O. Parry MBE – Arweinydd y Grwp Annibynnol Gwreiddiol |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Fflur M. Hughes, A M Jones |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2013.

**3 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/13**

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cyfarfod dair gwaith a rhoes amlinelliad o’r argymhellion a’r statws cyfredol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfodydd hyn..

Cytunwyd y byddai’r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor Llawn ar 23 Mai, 2013.

Roedd yr Aelodau o’r farn fod y Pwyllgor wedi gwneud cryn dipyn o waith ers y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ym mis Hydref y llynedd a llongyfarchwyd y Swyddogion perthnasol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno’r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012/13 i’r Cyngor llawn ar 23 Mai, 2013.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD H. EIFION JONES**
**CADEIRYDD**